

Cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint, Dydd Mawrth 12 Mehefin

Gwybodaeth ar gyfer Briffio'r Cyfryngau, Dydd Gwener, 8 Mehefin

TREFNU YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Sir y Fflint ar Ddydd Mawrth 12 Mehefin. Er gwybodaeth, dyma grynodedb o'r adroddiad.

Roedd yr ymgynghori cyhoeddus anffurfiol yn drafodaeth 'fyw' a daeth yn eglur wrth i'r cyfarfodydd a'r trafodaethau fynd yn eu blaenau fod -

- rhai dewisiadau yn haws eu cefnogi gan gymunedau lleol, cymunedau ysgolion ac aelodau lleol nag eraill
- rhai dewisiadau yn fwy tebygol o fod o fudd i gyflawni amcanion addysgol a chymunedol nag eraill
- rhai dewisiadau yn fwy tebygol o gwrdd â pholisi'r Cyngor a Llywodraeth Cymru nag eraill
- rhai dewisiadau yn fwy tebygol o fod yn fforddiadwy nag eraill

Er bod y Cyngor eto i ystyried yn llawn yr adborth manwl a chyfoethog sydd yn y papur sy'n cefnogi'r adroddiad hwn, ac y dylem osgoi penderfynu'r canlyniad ymlaen llaw, dyma grynodedb o'r safbwynt cychwynol.

Treffynnon

Mae dewis i ddod â'r ysgolion babanod ac iau lleol at ei gilydd mewn ysgol gynradd newydd wedi ei hadeiladu'n bwrpasol wedi ei chydleoli gyda'r Ysgol Uwchradd yn ennill ffafiaeth fwyfwy yn yr adolygiad yn yr ardal hon. Byddai hyn yn cynnig dilyniant gwell i ddysgwyr drwy'r ystod oedran Ysgol Gynradd yn llawn. Mae ymatebion ymgynghori allweddol yn nodi bod Treffynnon hefyd yn wynebu cyfle "unwaith mewn cenhedlaeth" i ddatblygu ysgol uwchradd newydd i wasanaethu cymunedau lleol. Mae'r her yn aros ynghylch sut mae cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru i drawsffurfio addysg chweched dosbarth i ddysgwyr o'r ardal.

Glannau Dyfrdwy

Mae lefel uchel o wrthwynebiad cyhoeddus i uno Ysgol Uwchradd John Summers gydag Ysgol Uwchradd Cei Connah. Mae ymgynghoreion wedi cyflwyno ystod o heriau ac anawsterau ymarferol sy'n gwneud dewis o'r fath yn anodd ei gefnogi. Mae diddordeb cryf mewn creu canolfan Chweched Dosbarth yng Nghei Connah er budd dysgwyr o Lannau Dyfrdwy, y mae ariannu ar gael ar ei chyfer gan Lywodraeth Cymru. Mae yna hefyd ddewis creadigol yn cael ei gynnis gan Lywodraethwyr Ysgol Uwchradd John Summers i weithio'n agosach gyda'r ddarpariaeth ysgol gynradd leol mewn trefniant cymunedol 3-16 oed

newydd. Y dewisiadau hyn sy'n ennill ffafriaeth fwyfwy yn yr adolygiad yn yr ardal hon.

Bwcle, Mynydd Isa a'r Wyddgrug

Mae llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Elfed ym Mwcle wedi gofyn am ailystyried y dewisiadau i ffederaleiddio neu uno gydag Ysgol Uwchradd Argoed ym Mynydd Isa; nid yw safbwyntiau'r llywodraethwyr yn Argoed wedi newid ers y llynedd. Nid yw llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Argoed yn cefnogi ffederaleiddio nac uno gydag Ysgol Uwchradd Elfed. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghori cyntaf â'r gymuned yn 2011 a'r safbwynt sy'n parhau gan Gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Argoed yn rhwystrau mawr i fynd ar ôl dewis o'r fath. Mae angen ystyriaeth bellach i'r dewisiadau ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd yn ardal Bwcle

Mae gweledigaeth gadarnhaol i ddatblygu a gwella Ysgol Gynradd Westwood ar ei safle presennol ynghyd â pharodrwydd i ystyried adleoliad posibl i Ganolfan Westwood. Mae yna ffafriaeth fwyfwy yn codi at y dewis hwn.